

CANLLAWIAU CYMORTH DIGIDOL

GALWADAU FIDEO

Dysgwch sut i wneud galwadau fideo gan ddefnyddio WhatsApp, Google Duo, Facebook Messenger, a ffonau iOS ac Android.



WHATSAPP

- Mae WhatsApp yn wasanaeth negeseuon ffonau clyfar poblogaidd sy'n eich galluogi i gysylltu gyda defnyddwyr WhatsApp eraill i anfon negeseuon a gwneud galwadau.

- Nid oes cyfyngiad ar hyd y negeseuon y gallwch eu hanfon trwy WhatsApp, a gallwch greu sgwrs grŵp er mwyn sgwrsio gyda nifer o bobl ar unwaith, yn ogystal ag anfon lluniau a fideos trwy'r ap.


- Ewch i'r Siop **App** neu **Play** ar eich ffôn. Teipiwch WhatsApp yn y gofod chwilio. Bydd yr app WhatsApp Messenger yn ymddangos, ac mae am ddim i'w lawrlwytho.




Siop App - iOS



Siop Play - Android




- Tapiwch ar **Install** ac yna **Accept** i roi'r caniatâd mae WhatsApp ei angen i redeg. Bydd hyn yn dechrau'r broses lawrlwytho yn awtomatig.




- Unwaith fydd y broses lawrlwytho wedi cwblhau, tapiwch ar **Open** er mwyn agor yr ap.



- Cewch eich annog i gytuno i Delerau'r Gwasanaeth. Cytunwch er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf.




- Wedyn byddwch angen cadarnhau eich rhif ffôn. Rhowch eich rhif ffôn i mewn a thapiwch **Next**.



The screenshot shows the WhatsApp phone verification interface. At the top, the status bar displays signal strength, 4G LTE, 84% battery, and 5:59 PM. The title is "Verify your phone number". Below it, a message states: "WhatsApp will send an SMS message to verify your phone number. Enter your country code and phone number:". There is a dropdown menu for "United Kingdom" and a text input field for the phone number, which is pre-filled with "+ 44" and "phone number". A green "NEXT" button is centered below the input field. Underneath the button, it says "Carrier SMS charges may apply". At the bottom, there is a standard numeric keypad with letters on the numbers 2-9, a "Done" button, a "Sym" button, and a "110" button.


- Gofynnir i chi gadarnhau mai dyma'r rhif yr ydych am ei wirio, felly os ydych wedi gwneud unrhyw gamgymeriadau, gallwch fynd yn ôl i'w cywiro. Yna byddwch yn derbyn neges destun gyda chod dilysu 6 digid. Dylai WhatsApp ganfod hyn yn awtomatig a dilysu'r rhif, ond os ddim, teipiwch y cod rydych wedi ei dderbyn.

- Yn olaf, teipiwch yr enw yr hoffech ei ddefnyddio ar eich proffil. Gallwch hefyd ychwanegu llun drwy dapio eicon y camera ac uwchlwytho llun o'ch ffôn.




The screenshot shows the WhatsApp profile info screen. At the top, the status bar displays signal strength, v.whatsapp.com/911611, and a battery icon. The title is "Profile info". Below it, a message states: "Please provide your name and an optional profile photo". There is a circular camera icon on the left and a text input field with the placeholder "Type your name here" and a smiley face emoji icon on the right.


- I wneud galwad fideo yn defnyddio **Android**, agorwch whatsapp a chliciwch ar calls.





- Tapiwch er mwyn dewis y cyswllt rydych am ei ffonio, a bydd galwad llais yn dechrau'n awtomatig.




- Er mwyn gwneud galwad fideo gan ddefnyddio **iOS**, agorwch whatsapp a chliciwch ar yr eicon **CALLS** ar waelod y sgrin.



- Tapiwch  ar gornel dde uchaf y sgrin er mwyn dangos eich holl gysylltiadau.



- Rŵan, tapiwch yr eicon galwad fideo  ger y cyswllt er mwyn ffonio.

FACEBOOK MESSENGER

- Mae'r nodwedd sgwrs fideo ar Facebook Messenger yn caniatáu teuluoedd a ffrindiau i gadw mewn cysylltiad lle bynnag maent yn y byd. Rhaid i chi sefydlu cyfrif Facebook er mwyn defnyddio Messenger.


- Ewch i'r Siop **App** neu **Play** ar eich ffôn. Teipiwch Messenger yn y gofod chwilio. Bydd yr app **Messenger** yn ymddangos, ac mae am ddim i'w lawrlwytho.



Siop App - iOS




Siop Play - Android




- Unwaith i chi lawrlwytho'r ap yn llwyddiannus, cliciwch arno i'w agor a chewch eich hannog i fewngofnodi gan ddefnyddio eich manylion cyfrif Facebook.


- Tapiwch y gofod chwilio er mwyn dod o hyd i'r cyswllt yr ydych yn dymuno ffonio. Os ydych wedi anfon neges nei wedi ffonio ffrindiau yn Messenger o'r blaen, byddent yn ymddangos o dan y gofod chwilio.



- Dewiswch yr unigolyn, ac yna tapiwch ar yr eicon Sgwrs Fideo ar y gornel dde uchaf.



- Pan fyddwch yn derbyn galwad, bydd Messenger yn eich hysbysu ar unwaith a gallwch dderbyn neu wrthod.




- Os ydych yn defnyddio gliniadur gyda gwe-gamera mewnol neu fwrdd gwaith gyda gwe-gamera allanol, gallwch gynnal sgwrs fideo gydag unrhyw ffrind Facebook trwy Messenger.

- Dechreuwch trwy fewngofnodi i Facebook yn eich porwr gwe dewisol. Cliciwch ar **Messenger** ar ochr chwith hafan Facebook.



- Cliciwch ar enw'r unigolyn yr ydych am ei ffonio. Yna dewiswch yr eicon **Video Chat** ar y gornel dde uchaf i ddechrau eich galwad.



GOOGLE DUO

- Duo yw'r ap galwad fideo o'r ansawdd uchaf. Mae'r ap am ddim, yn syml ac yn gweithio ar ffonau Android, iPhones, dyfeisiau llechen, cyfrifiaduron ac arddangoswyr clyfar.


- Ewch i'r Siop App neu Play ar eich ffôn. Teipiwch Google Duo yn y gofod chwilio. Bydd yr app Google Duo yn ymddangos, ac mae am ddim i'w lawrlwytho.




Siop App - iOS




Siop Play - Android





- Unwaith i chi lawrlwytho'r ap yn llwyddiannus, cliciwch arno i'w agor. Wedyn, bydd angen i chi clicio **I agree** i barhau i gytuno ar delerau gwasanaeth a polisi preifatrwydd.





- Nesaf, gallwch gytuno i ganiatáu i'r ap gael mynediad at eich microffon, camera a'ch cysylltiadau ar eich ffôn – cliciwch **Give Access**.




- Rŵan, byddwch angen dilysu eich rhif ffôn – teipiwch eich rhif ffôn symudol a chliciwch ar **NEXT**. Bydd cod dilysu yn cael ei anfon i chi trwy SMS a byddwch angen ei deipio i mewn.



- Barod i fynd – Gallwch chwilio ar dop y sgrin am y cyswllt rydych yn dymuno ei ffonio, tapiwch ar y cyswllt, yna'r eicon **video call**.



- Os ydych yn defnyddio gliniadur gyda gwe-gamera mewnol neu fwrdd gwaith gyda gwe-gamera allanol, gallwch hefyd ddefnyddio Google Duo. Byddwch angen cyfrif e-bost Google. Ewch i'ch porwr gwe a theipiwch **Google Duo** a chwilio.



- Cliciwch ar **TRY DUO FOR WEB** ar gornel dde uchaf y dudalen. Os oes gennych gyfrif e-bost Google, gallwch fewngofnodi, os nad gallwch gofrestru trwy ddewis **CREATE ACCOUNT**.

- Cwblhewch y manylion gofynnol a chliciwch ar **NEXT**.

Create your Google Account

First name Last name

Username @gmail.com

You can use letters, numbers & periods
[Use my current email address instead](#)

Password Confirm

Use 8 or more characters with a mix of letters, numbers & symbols

[Sign in instead](#) [Next](#)

- Rŵan, byddwch angen dilysu eich rhif ffôn – teipiwch eich rhif ffôn symudol a chliciwch ar **NEXT**. Bydd cod dilysu yn cael ei anfon i chi trwy SMS a byddwch angen ei deipio i mewn a chlicio **VERIFY**.

Verify your number

Your contacts will video call you using your phone number.

United Kingdom (+44)

People who know your number can reach you across Google services. Duo will send you a one-off SMS message. Operator rates may apply.

Verifying your phone number

For your security, Google wants to make sure that it's really you. Google will send a text message with a 6-digit verification code. *Standard rates apply*

Enter verification code

G-

[Back](#)

[Call instead](#)

[Verify](#)



- Yna, byddwch angen cwblhau'r manylion ychwanegol a chlicio **NEXT**.

Welcome to Google

Phone number (optional)

We'll use your number for account security. It won't be visible to others.

Recovery email address (optional)

We'll use it to keep your account secure

Day Month Year

Your date of birth


Gender

[Why we ask for this information](#)

[Back](#) [Next](#)

- Yn olaf, byddwch angen cytuno i'r telerau ac amodau a dewis **CREATE ACCOUNT**

- Rydych bellach wedi creu cyfrif ac yn barod i wneud galwadau fideo.



- Gallwch deipio'r rhif ffôn i'r blwch **chwilio/deialu** neu gallwch ddefnyddio'r dewis **ADD NUMBER** ar y gwaelod ac ychwanegu rhifau ac enwau i'w defnyddio yn y dyfodol.

**GWNEUD GALWADAU
FIDEO YN
UNIONGYRCHOL O'CH
FFÔN CLYFAR**

- Os oes gennych ffôn clyfar iPhone, gallwch ddefnyddio'r swyddogaeth galwad fideo sydd eisoes wedi'i osod yn y ffôn.

- Rhaid i'r unigolyn rydych yn ei ffonio gael ffôn clyfar er mwyn derbyn y galwad fideo.

- Ewch i **CONTACTS** ar eich ffôn, sgroliwch a dewiswch y cyswllt rydych yn dymuno ei ffonio. Yna tapiwch yr eicon fideo i wneud y galwad fideo.

